**Rheolydd Data:** Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys, 30 Heol Ddole, Llandrindod, Powys, LD1 6DF.

**Swyddog sy'n gyfrifol am ddiogelu data:** Angela Owen, Pennaeth Gwasanaethau Mewnol

Fel rhan o unrhyw broses recriwtio, mae'r sefydliad yn casglu ac yn prosesu data personol mewn perthynas ag ymgeiswyr am swyddi. Mae'r sefydliad wedi ymrwymo i fod yn agored ynghylch sut mae'n casglu ac yn defnyddio'r data dan sylw, ac i fodloni ei rwymedigaethau o ran diogelu data.

**Pa wybodaeth mae'r sefydliad yn ei chasglu?**

Mae'r sefydliad yn casglu amrediad o wybodaeth amdanoch, sy'n cynnwys:-

- Eich enw, cyfeiriad a manylion cyswllt, gan gynnwys cyfeiriad ebost a rhif ffôn
- Manylion cymwysterau perthnasol, sgiliau, profiad a hanes cyflogaeth
- Os oes gennych anabledd y mae angen i'r sefydliad wneud addasiadau rhesymol ar ei gyfer yn ystod y broses recriwtio
- Gwybodaeth am eich hawl i weithio yn y DU
  a
- Gwybodaeth ddienw o ran monitro cyfleoedd cyfartal, gan gynnwys gwybodaeth am eich tarddiad ethnig, cenedl ac oedran

Mae'r sefydliad yn casglu'r wybodaeth yma mewn ffyrdd amrywiol. Er enghraifft, gall data fod yn rhan o ffurflenni cais, CV neu grynodebau, gall ddod o'ch pasbort neu ddogfennau tebyg eraill, neu gellir ei gasglu trwy gyfweliadau neu ddulliau asesu eraill.

Bydd y sefydliad hefyd yn casglu data personol amdanoch gan drydydd parti, megis tystlythyrau a roddir gan gyn-gyflogwyr a gwybodaeth o wiriadau cofnodion troseddol, lle bo'n briodol i'r swydd. Bydd y sefydliad yn gofyn am wybodaeth gan drydydd parti yn unig ar ôl cynnig swydd ichi, a bydd yn eich hysbysu fod hyn yn digwydd.

Cedwir data mewn amrediad o leoliadau gwahanol, gan gynnwys ar eich cofnod ymgeisio, ar systemau rheoli AD ac ar systemau TG eraill (megis ebost).

**Pam bod angen i'r sefydliad brosesu data personol?**

Mae angen i'r sefydliad brosesu data er mwyn cymryd camau priodol ar eich cais chi, cyn dod I gytundeb gyda chi. Hefyd mae angen prosesu eich data er mwyn llunio cytundeb gyda chi.

Mewn rhai achosion, mae angen i'r sefydliad brosesu data i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â rhwymedigaethau cyfreithiol. Er enghraifft, mae gofyn gwirio cymhwysedd ymgeisydd llwyddiannus i weithio yn y DU cyn cychwyn ar y swydd.

Mae gan y sefydliad ddiddordeb dilys mewn prosesu data personol yn ystod y broses recriwtio ac er mwyn cofnodi'r broses honno. Mae prosesu data ymgeiswyr am swyddi yn caniatáu i'r sefydliad reoli'r broses recriwtio, ac asesu a chadarnhau addasrwydd ymgeisydd ar gyfer swydd, a phenderfynu i bwy y dylid cynnig y swydd. Hwyrach y bydd angen i'r sefydliad hefyd brosesu data gan ymgeiswyr am swyddi er mwyn ymateb i a'u hamddiffyn yn erbyn achosion cyfreithiol.

Os bydd y sefydliad yn dibynnu ar fuddiannau dilys fel rheswm dros brosesu data, mae wedi ystyried a yw hawliau a rhyddidau gweithwyr yn bwysicach na'r buddiannau hynny, ac wedi dod i'r casgliad nad ydynt yn bwysicach.

Mae'r sefydliad yn prosesu gwybodaeth iechyd os oes angen gwneud addasiadau rhesymol i'r broses recriwtio ar gyfer ymgeiswyr gydag anabledd. Diben hyn yw diwallu ei rwymedigaethau ac arfer hawliau penodol mewn perthynas â chyflogaeth.

Os bydd y sefydliad yn prosesu categorïau data arbennig eraill, megis manylion tarddiad ethnig, cenedl neu oedran, mae hyn at bwrpasau monitro cyfleoedd cyfartal yn ddienw.

Ar gyfer rhai swyddi, mae'r sefydliad yn gorfod gofyn am wybodaeth am euogfarnau a throseddau. Pan fydd y sefydliad yn gofyn am yr wybodaeth yma, mae'n gwneud oherwydd ei fod yn angenrheidiol er mwyn cyflawni ei rwymedigaethau ac i arfer hawliau penodol mewn perthynas â chyflogaeth.

Ni fydd y sefydliad yn defnyddio eich data at unrhyw ddiben arall ar wahân i'r ymarfer recriwtio y gwnaethoch gais amdano.

**Pwy sy'n cael mynediad at y data?**

Rhennir eich data'n fewnol at ddiben yr ymarfer recriwtio. Mae hyn yn cynnwys aelodau'r tîm AD a recriwtio, unigolion sy'n cyfweld fel rhan o'r broses recriwtio a'r Ymgynghorydd TG, os oes angen mynediad at ddata er mwyn cyflawni eu swyddi.

Ni fydd y sefydliad yn rhannu eich data gyda thrydydd parti, oni fydd eich cais am waith yn llwyddiannus, a bydd yn cynnig swydd ichi. Wedyn bydd y sefydliad yn rhannu eich data gyda chyn-gyflogwyr i ofyn am dystlythyrau a'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd I ofyn am wiriadau i gofnodion troseddol. Hwyrach y byddwn hefyd yn rhannu eich gwybodaeth gydag ymgynghorwyr allanol ym maes cyfraith cyflogaeth ac AD i dderbyn cyngor ar broblemau, er enghraifft cwmpas unrhyw addasiadau rhesymol.

Ni fydd y sefydliad yn trosglwyddo eich data tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd.

**Sut mae'r sefydliad yn diogelu data?**

Mae'r sefydliad o ddifrif ynghylch diogelu eich data. Mae'n arfer polisïau a rheoliadau mewnol i sicrhau na chollir eich data, ni chaiff ei ddinistrio ar ddamwain, ei gamddefnyddio neu ei ddatgelu, ac nid yw unrhyw swyddogion ar wahân i swyddogion sy'n cyflawni eu dyletswyddau'n briodol, yn cael mynediad ato. Mae'r Polisi Diogelu Data ar gyfer Swyddogion, Gwirfoddolwyr ac Ymgynghorwyr PAVO yn cynnwys y mesurau trefniadaethol er mwyn sicrhau diogelwch data; ac mae pob aelod o staff yn gorfod cydymffurfio â'r rhain. Rydym yn cydweithio gyda'n Hymgynghorydd TG tuag at achredu dan y cynllun 'Cyber Essentials', i sicrhau fod y mesurau priodol mewn bodolaeth i allu cadw, cael mynediad at a throsglwyddo data'n ddiogel.

**Am faint mae'r sefydliad yn cadw data?**

Os nad yw'ch cais am waith yn llwyddiannus, bydd y sefydliad yn cadw'ch data ar ffeil am 6 mis ar ôl diwedd y broses recriwtio berthnasol. Ar ddiwedd y cyfnod hwnnw, caiff eich data ei ddileu neu ei ddinistrio.

Os bydd eich cais am waith yn llwyddiannus, trosglwyddir data personol a gasglwyd yn ystod y broses recriwtio i'ch ffeil personél, a chaiff ei gadw yn ystod cyfnod eich cyflogaeth. Byddwch yn derbyn hysbysiad preifatrwydd newydd i'ch hysbysu am gyfnodau cadw eich data.

**Eich hawliau**

Fel gwrthrych data, mae gennych nifer o hawliau. Gallwch:-

- Gael mynediad at a chael copi o'ch data trwy gyflwyno cais am hynny
- Ofyn i'r sefydliad newid data anghywir neu anghyflawn
- Ofyn i'r sefydliad ddileu neu roi'r gorau i brosesu eich data, er enghraifft os nad oes angen y data bellach at ddiben prosesu
- Wrthwynebu prosesu eich data os mae'r sefydliad yn dibynnu ar ddiddordebau dilys fel sail gyfreithiol dros brosesu

  A gallwch
- Ofyn i'r sefydliad roi'r gorau i brosesu data am gyfnod, os yw'r data'n anghywir, neu os oes anghydfod ynghylch a yw eich buddiannau chi'n bwysicach na sail gyfreithiol y sefydliad i brosesu data.

Gallwch wneud cais gwrthrych am wybodaeth trwy lenwi ffurflen y sefydliad i gyflwyno cais gwrthrych am wybodaeth sydd ar gael drwy gysylltu â Phennaeth Gwasanaethau Mewnol PAVO.

Os ydych o'r farn nad yw'r sefydliad wedi cydymffurfio â'ch hawliau o ran diogelu data, gallwch gofrestru cwyn gyda'r Comisiynydd Gwybodaeth.

**Os nad ydych yn darparu data personol, beth sy'n digwydd?**

Nid oes unrhyw rwymedigaeth statudol na chytundebol arnoch i ddarparu data i'r sefydliad yn ystod y broses recriwtio. Fodd bynnag, os nad ydych yn darparu'r wybodaeth, hwyrach na fydd y sefydliad yn gallu prosesu eich cais mewn ffordd briodol, neu o gwbl.

**Penderfyniadau Awtomatig**

Ni seilir prosesau recriwtio PAVO ar benderfyniadau awtomatig.